# Argaeledd cymwysterau dynodedig CBAC–Eduqas i ganolfannau yng Nghymru

## 1. Dynodi cymwysterau CBAC–Eduqas UG, Uwch a TGAU (9-1) i'w defnyddio yng Nghymru

CBAC yw'r darparwr mwyaf o gymwysterau TAG a TGAU yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ei bortffolio o gymwysterau sydd ar gael yng Nghymru yn cynnwys y cymwysterau CBAC-Eduqas UG, Uwch a TGAU (9-1) hynny a achredwyd gan Ofqual mewn pynciau lle nad oes unrhyw gymhwyster TAG na TGAU wedi eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru. Gwneir hyn drwy broses o "ddynodi" y cymwysterau achredededig Ofqual hyn gan Cymwysterau Cymru.

Mae'r cymwysterau CBAC-Eduqas canlynol wedi eu dynodi ar hyn o bryd gan Cymwysterau Cymru i'w defnyddio gan ganolfannau yng Nghymru:

- TGAU (9-1) Electroneg
- TGAU (9-1) Astudiaethau Ffilm
- TGAU (9-1) Daeareg
- TGAU (9-1) Lladin
- TGAU (9-1) Cymdeithaseg
- UG ac Uwch Electroneg
- UG ac Safon Uwch Astudiaethau Ffilm
- UG ac Safon Uwch Daeareg

Dylid nodi bod yn rhaid cynnig y cymwysterau dynodedig hyn ar yr un ffurf â'u fersiynau achrededig sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual.  Felly, mae'r cymwysterau UG ac Uwch yn gymwysterau llinol, digyswllt, annibynnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r cymhwyster UG yn cyfrannu at y cymhwyster Safon Uwch cyflawn.  Mae'r cymwysterau TGAU yn llinol, wedi eu graddio 9-1 yn hytrach na A*-G fel yn achos cymwysterau TGAU CBAC a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru.

## 2. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg cymwysterau UG, Uwch a TGAU (9-1) CBAC-Eduqas

Mae CBAC wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl asesiadau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o bapurau cwestiynau ein holl gymwysterau dynodedig CBAC-Eduqas yn ôl y gofyn, ac mae'r drefn i'w dilyn i'w gweld yn adran 3 isod. Byddwn hefyd yn rhoi cyfle i ymgeiswyr gwblhau eu hasesiadau di-arholiad trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n berthnasol. Mae'r drefn o roi gwybod i CBAC am unrhyw ofynion asesu di-arholiad hefyd i'w gweld yn adran 3 isod. Bydd CBAC yn sicrhau bod aseswr cyfrwng Cymraeg yn cael ei benodi i farcio neu gymedroli'r gwaith a gyflwynwyd.

## 3. Sut i ofyn am ddeunyddiau asesu cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau dynodedig CBAC-Eduqas UG, Uwch a TGAU (9-1) dynodedig CBAC-Eduqas

a) Os oes angen papurau cwestiynau cyfrwng Cymraeg neu dasg asesiad di-arholiad cyfrwng Cymraeg ar ganolfan, bydd yn **rhaid** i'r ganolfan ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol ar gyfer pob cydran drwy'r ffurflen 'Cais am bapurau cyfrwng cymraeg'.

b) Rhaid cyflwyno'r wybodaeth i CBAC **heb fod yn hwyrach na 8 Tachwedd** ar gyfer cyfres y Mehefin canlynol (gweler hefyd adran 5 isod). Ni fydd CBAC yn gallu darparu deunyddiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.
c) Os yw canolfan yn disgwyl y bydd yn cyflwyno tasgau NEA gan rai neu bob un o' i ymgeiswyr yn y Gymraeg, rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon hefyd i CBAC drwy'r un ffurflen erbyn yr un terfyn amser.

## 4. Y drefn o gofrestru am gymwysterau CBAC-Eduqas UG, Uwch a TGAU (9-1)

Bydd canolfannau yn cyflwyno cofrestriadau am y cymwysterau dynodedig hyn yn y modd arferol. Mae hyn yn gymwys i gyflwyniadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Er y bydd canolfannau yn hysbysu CBAC am eu gofynion cyfrwng Cymraeg, yn ôl y drefn yn adran 3 uchod, rhaid cyflwyno'r gwaith ar gyfer pob cymhwyster o fewn yr un terfynau amser a gyhoeddwyd i bob cyfres.

## 5. Darpariaeth deunyddiau cefnogol cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau dynodedig

Ar hyn o bryd mae CBAC wedi ymrwymo i ddarparu deunyddiau asesu yn y Gymraeg yn ôl y gofyn i ganolfannau sydd am gofrestru ymgeiswyr trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer cymwysterau dynodedig WJEC-Eduqas UG, Uwch a TGAU (9-1)

Bydd CBAC hefyd yn cynnig y fanyleb a deunyddiau asesu enghreifftiol trwy gyfrwng y Gymraeg cyn gynted ag y bydd yn hysbys i ni y bydd ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg wedi cofrestru ar gyfer y cymhwyster. Felly mae'n well i ganolfannau roi gwybod i ni o'u bwriad i gofrestru ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg ar ddechrau'r addysgu yn hytrach nag aros tan yr Hydref sy'n rhagflaenu cyfres asesu'r haf.

Nid yw CBAC yn gallu gwarantu y bydd deunyddiau adnoddau eraill ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cymwysterau hyn.  Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa, nes y bydd gwell syniad o'r gofyn am asesiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob cymhwyster dynodedig.